Llwydlas a'r Llyfr Dofednod

Cyhoeddwyd rhyw bump o lyfrau Saesneg yn ymwneud yn benodol â magu dofednod (ffowls) yn y cyfnod 1800-1840. (Cyhoeddwyd hefyd lyfr Cymraeg yn yr un maes ac yn dwyn y teitl gogleisiol *Ychydig hyffordiant ar driniad dôf-adar gan 'Modryb Sian o Din-aeth-wy'*; daeth o wasg Humphreys, Bangor yn 1839 a bu ar werth am ddwy geiniog.) Ond y gwaith arloesol, ac yn dad i holl lyfrau 'dofednodol' y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd *A treatise on the Breeding, Rearing, and Fattening of Poultry, chiefly translated from the New French Dictionary on Natural History* a gyhoeddwyd yn ddienw gan Juigné, Llundain, yn 1810 Roedd hwn yn addasiad o'r erthygl 'Poule et Coq' gan C. N. S. Sonnini de Manoncourt a gyhoeddwyd yn y *Nouveaux Dictionnaire d'histoire naturelle, appliquée aux arts etc* yn 1803. Cyhoeddwyd ail argraffiad Saesneg, hefyd yn ddienw, yn 1819. Erbyn heddiw mae copïau o'r naill argraffiad fel y llall yn brin iawn. Nid oes ar gael ychwaith unrhyw wybodaeth am y cyfieithydd/addasydd dienw. Rhestrir copïau yn 'ddienw' (neu weithiau dan enw'r prif ffynhonnell 'Sonnini') yng nghatalogau'r prif lyfrgelloedd a chan R. C. Punnett yn ei waith llyfryddol *Notes on Old Poultry Books* (1930).

Bellach, fodd bynnag, mae modd awgrymu mai Isaac Coffin (Greenly) oedd y cyfieithydd - diolch yn bennaf i nodyn gan ei wraig Elizabeth (Coffin) Greenly mewn copi o'r ail argraffiad a ddaeth i'm meddiant yn ddiweddar. Uwchben y Rhagair roedd Isaac Coffin wedi sgrifennu 'A present to my Wife, I.C.'. Cydnabyddwyd y rhodd gan Elizabeth Greenly, sgrifennodd ei henw 'E[lizabeth]. B[rown]. C[offin]. Greenly ar ben y ddalen deitl gan ychwanegu o dan y teitl yr arysgrif 'translated by Sir Isaac Coffin Greenly Bart from the French' (Llun). Mae'r cyfan yn cofnodi digwyddiad diddorol yn hanes troellog y berthynas rhwng Elizabeth Greenly a'i gŵr.

Roedd Elizabeth Coffin Greenly (Llwydlas) yn byw yn Llys Titley yn Swydd Henffordd – rhyw bedair milltir o'r ffin rhwng Lloegr a Chymru. Yn noddwraig i Edward Williams (Iolo Morganwg) ac yn ddylanwadol iawn yn natblygiad cynnar Cymreictod Gwenynen Gwent (Lady Llanofer), bu Elizabeth Brown Greenly yn gefn i nifer o weithgareddau Cymraeg a



A

TREATISE

ON THE

BREEDING, REARING, AND FATTENING

OF

POULTRY.

translated by Sir Isaac Coffin Greenly Bart. from the French

SECOND EDITION.

LONDON:

PRINTED FOR JAMES RIDGWAY, PICCADILLY;

By S. Gosnell, Little Queen Street.

1819.

Price 5s.

Chymreig yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg Yn wraig dalentog mewn sawl maes, ymddiddorai yn y Gymraeg, a'i dysgu, ymhell cyn bod dylanwad 'cylch Llanofer' wedi ymledu ymhlith teuluoedd tiriog yr ardal. Yn ei hymwneud â'r eisteddfodau (lleol, ran amlaf) defnyddiai'r ffugenw 'Llwydlas'.

Llwydlas wnai ddiwall odli - ac ennyn
Cân o ryfedd dlysni;
Ac o hyd wnai gysgodi
Ein hen iaith, a'n hawen ni.

Canai Dewi Wyn o Esyllt amdani adeg ei marwolaeth.

Yn 1811, a hithau'n 39 oed, priododd â'r Llyngesydd Syr Isaac Coffin – dewis annisgwyl braidd gan fod bywyd Coffin (52 oed) wedi'i fritho gan nifer o ddigwyddiadau anffodus; bu'n destun cwrt-marsial fwy nag unwaith a dioddefai gan dorllengig poenus, yn ganlyniad i'w gais i achub bywyd morwr arall yn 1794. Ymdaflodd Coffin i ysbryd y briodas fodd bynnag, gan gytuno hyd yn oed i newid ei enw i 'Coffn Greenly'. A daeth ei wraig yn Lady Coffin Greenly. Ond byr fu parhad y berthynas. Ymhen ychydig dros flwyddyn cefnodd y Llyngesydd ar ei wraig a diflannu am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, saith blynedd yn ddiweddarach penderfynodd ddychwelyd at Lady Greenly. Diau iddo deimlo ar y pryd fod angen rhyw arwydd digamsyniol fod ffflam ei draserch yn dal ynghynn ar ôl cynifer o flynyddoedd. Erbyn hynny (1819) roedd y 11yfr ar ddofednod newydd gyrraedd yr ail argraffad, ac ymddengys fod Coffin wedi tybio y byddai cyflwyno copi i'w wraig yn ddull addas o selio'r cymodi ac o ddathlu'r aduniad.

Nid oes rheswm dros amau dilysrwydd yr arysgrif ar y ddalen deitl. Roedd gan Lady Greenly'r enw o fod yn fenyw graff a di-lol ac yn annhebyg o gael ei thwyllo gan y Llyngesydd a'i debyg. A phrin y byddai Coffin, o geisio creu argraff ar ei wraig, wedi dewis llyfr ar gadw ffowls yn anrheg iddi onibai bod arwyddocâd neilltuol yn perthyn iddo. Ni ellir felly ond derbyn mai Coffin – er mor annhebygol y peth – oedd awdur y llyfr dofednod. Yn anfwriadol felly, dyma Arglwyddes Greenly yn cyfrannu mewn ffordd ddigon distadl at ein gwybodaeth lyfryddol am un o'r llyfrau Saesneg pwysicaf yn hanes cadw ffowls.

R. ELWYN HUGHES

Adre'n ôl

Da yw cael dweud wrth ddarllenwyr *Y Casglwr* fod copi o Destament Newydd William Salesbury wedi dod adre'n ôl i Gymru ar ôl trigain mlynedd, a hynny i aros.

Bu'n eiddo i Garnhuanawc, D. R. Thomas, Archddiacon Maldwyn, a Syr E. D. Jones (1916).

Yn 1941 fe'i gwerthwyd gan Gwmni Maggs i Americanes, Estelle Doheny. Yna bu yn llyfrgell St Mary of the Barrens, Perryville, Missouri, – hyd yn ddiweddar, am a wn i. Mae 38 tudalen ar goll ond mae wedi ei adgyweirio yn hynod grefftus gan y Llyfrgell Brydeinig am £6 yn 1897 pan ym meddiant yr Archddiacon. Defnyddiwyd y cloriau blaen ac ôl gwreiddiol.

Efallai cawn ddadlennu ble mae rhyw ddiwrnod. A'i bris? Dan £2000. Mae'n debyg mai hwn yw un o'r ddau gopi amherffaith a restir gan John Ballinger yn 'The Bible in Wales' fel yn eiddo i '*Ven. Archdeacon* Thomas, Llandrinio Rectory'.



Testament
Newydd ein Arglwydd
IESV CHRIST.

Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfia-
ith, air yn ei gyfydd oz Groec a'r Lladin, gan
newidio ffurf llythyren y gairiae-dodi. Eb law hynn
y mae pop gair a dybiwpt y bot yn andeallus,
ai o ran lleiaith y 'wlad, ai o ancynefin-
der y debygbd, wedy ei rotti ai eg-
lurhau ar 'ledemyl y tu da-
len gyferbyniol.

bot golaunt ir bpt, a' charu o ddynion y tywyllwch

Matheu x m.f.

Wyneb-ddalen Testament Newydd William Salesbury (1567).

Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1851–1900

periodicals, 1824-1900, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Laurier ar ran Prifysgol Waterloo, Canada, ym 1977, a hynny dan olygyddiaeth Michael Wolff a Dorothy Deering o Brifysgol Purdue. Ers hynny ymddangosodd *The Waterloo directory of Irish newspapers and periodicals, 1800-1900* dan olygyddiaeth John S. North ym 1986, a *The Waterloo directory of Scottish newspapers and periodicals, 1800-1900*, yn ddwy gyfrol sylweddol, eto dan olygyddiaeth John S. North, ym 1989. Yna ymddangosodd *The Waterloo directory of English newspapers and periodicals, 1800-1900* yn ddeg o gyfrolau ym 1997. Afraid dweud bod y cyfresi gwerthfawr hyn yn anhepgor i bob efrydydd sy'n ymddiddori yn niwylliant Lloegr, Iwerddon a'r Alban yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae cyfrolau *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig* yn dilyn yr un patrwm, fwy neu lai â chyfresi'r *Waterloo*, gyda'r gwahaniaeth bod llawer mwy o fanylion yn nisgrifiadau'r cyfrolau Cymreig. Gobeithir y bydd i'r ddwy gyfrol fel ei gilydd brofi yr un mor ddefnyddiol i efrydwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru.

HUW WALTERS